Mae'r grwpiau hyn yn seiliedig ar gryfderau swyddogaethau a strwythurau blaenorol y GIG ar draws Gogledd Cymru ond bod pum elfen bwysig iawn sydd yn diffinio'r Bwrdd Iechyd a'i dull.

Maent yn uno swyddogaethau'r sefydliadau blaenorol trwy fabwysiadu dull dan arweiniad clinigwyr a dull sy'n atebol gyda chlinigwyr a rheolwyr yn datblygu ac yn esblygu'r system. Maent yn seiliedig ar y cynsail bod gofal cychwynnol a gofal eilaidd yn hanfodol i lwyddiant clinigol ac nad ydynt yn gweithredu ar wahân ond fel gwasanaethau cydlynol i lwybrau gofal.

Maent yn newid canolbwynt y ddarpariaeth, gan symud o'r system a reolwyd gan ysbyty llym i ddatblygu gwasanaethau a'u darparu ar gyfer y boblogaeth gan roi dewis, tegwch o ran darpariaeth, ataliaeth a thriniaeth.

Ystyrir yr agenda iechyd, gofal cymdeithasol a dinesydd ehangach drwy aelodau eu byrddau rheoli gan ddod â'r gwaith o gynllunio a darparu at ei gilydd ac ychwanegu cefnogaeth at ddarparu gofynion iechyd partneriaethau statudol fel Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles a Phlant a Phobl Ifanc.

## **Demograffeg**

Mae uwch adran y Gorllewin yn gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 250,000. Mae'r ardal benodol hon yn leoliad gwyliau poblogaidd ac mae'r boblogaeth yn cynyddu'n fawr yn ystod misoedd yr haf. Mae Gogledd Orllewin Cymru'n ardal boblogaidd i ymddeol ac mae gan rannau o'r ardal y gyfran uchaf yng Nghymru o bobl dros 65 oed. Mae'r gwaith meddygol a llawfeddygol yn adlewyrchu patrymau'r clefyd a geir ymhlith pobl hŷn.

## **Cyfleusterau Ôl-Raddio**

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Ganolfan Ôl-raddio sy'n cynnwys Theatr Ddarlithio fodern, ynghyd â ystafelloedd darlithio, seminar ac ystafelloedd ymarferol.

Mae'r Llyfrgell ar agor 24 awr bob dydd ac mae tri aelod o staff llawn amser ac un rhan amser. Mae 10 cyfrifiadur ar gael, i gyd gyda mynediad i'r rhyngwyd, ac ystafell Sgiliau PC lle rhoddir hyfforddiant mewn llythrennedd gwybodaeth. Mae cronfeydd data ar-lein a gwrslyfrau llawn a chylchgronau ar gael drwy'r e-Llyfrgell ar gyfer GIG

Cymru. Mae llyfrgell gyfeirio yn Ysbyty Llandudno o dan ofal staff llyfrgell Ysbyty Gwynedd. Mae hefyd modd defnyddio cyfrifiaduron yn y Llyfrgell yn Llandudno. Cynhelir cyfarfodydd ôl-raddio bob amser cinio mewn gwahanol arbenigeddau ac mae rhaglen lawn o ddarlithoedd gyda'r nos yn ystod misoedd y gaeaf. Cynhelir Rownd Fawr bob amser cinio dydd Gwener.

Mae gan Ysbyty Llandudno llyfrgell gyfeirio sydd yn gysylltiedig â chyfleusterau Ysbyty Gwynedd. Hefyd mae Ystafell Seminar ar gael ar gyfer cyfarfodydd ôl-raddio a chynhelir gweithgareddau addysgol yn Ystafell Bwrdd yr Ysbyty.

## **Datblygiad ac Ymchwil Clinigol**

Rhoddir mwy a mwy o bwyslais mewn arfer clinigol ar ofal iechyd wedi ei seilio ar dystiolaeth a thystiolaeth o werth am arian ar gyfer y cynnydd mwyaf mewn iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd Uned Cefnogi Llywodraethu Glinigol sydd wedi'i datblygu'n dda. Mae'n hybu gweithgareddau effeithiolrwydd clinigol ac yn eu trefnu yn y Bwrdd Iechyd gyda'r bwriad o gynyddu gofal clinigol effeithiol a hynny ar sail tystiolaeth.

Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd bwyllgor ymchwil lleol ac mae ganddi gysylltiadau gyda Phrifysgol Bangor. Mae cyngor ystadegol ar gael drwy drefniant sefydlog gydag Adran Ystadegau'r Brifysgol. Mae adrannau eraill y Brifysgol yn gallu cynnig cyngor mewn meysydd fel Electroneg; Peirianeg; Biocemeg; Gwasanaethau Cymdeithasol a Seicoleg. Sefydlwyd cysylltiadau ffurfiol gyda'r Adran Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer, adran sy'n uchel ei pharch. Anogir prosiectau ymchwil ar y cyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Cadeirydd mewn Astudiaethau Fasgwlaidd i ategu penodiadau proffesiynol cyfredol mewn Astudiaethau Canser, Rhiwmatoleg, Seiciatreg, Niwroseicoleg a Seicoleg EMI. Cynhelir cyfarfodydd archwilio bob mis, gyda chefnogaeth gan weinyddwr archwilio a staff clericyddol. Bydd datblygiadau mewn technoleg gwybodaeth sydd ar fin digwydd yn darparu cronfa ddata glinigol i helpu'r broses archwilio.

Rhoddyd nifer o grantiau ymchwil sylweddol yn ddiweddar i glinigwyr trwy'r MRC.

## **Llywodraethu Clinigol**

Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Meddygol sy'n gyfrifol am ddatblygu Llywodraethu Glinigol yn y Bwrdd Iechyd a chynigir bod hyn yn cael ei gyflawni drwy weithrediad canolog gyda chefnogaeth Cydlynwyr Llywodraethu Clinigol ym mhob un o'r Uwch Adrannau.

## **Ysgol Glinigol**

Mae'r ysgol glinigol yn Ysbyty Gwynedd, fel rhan o'r adran addysg feddygol ehangach, yn darparu lleoliadau clinigol i fyfyrwyr meddygol o ysgolion meddygaeth prifysgolion Caerdydd ac Abertawe, yn ogystal â'r rhaglen Cydymaith Meddygol ym Mhrifysgol Bangor ac ar hyn o bryd mae'n gartref i tua 300 o fyfyrwyr y flwyddyn. Gyda chreu Ysgol Feddygol newydd Gogledd Cymru, sy'n agor ei drysau ym mis Medi 2024, mae'r nifer hwn ar fin dyblu, gan greu llawer mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn addysgu ac ymchwil.

Mae'r cyfleusterau addysgu'n cynnwys ystafell efelychu o'r radd flaenaf, dau labordy sgiliau clinigol llawn offer a mynediad i 6 ystafell addysgu ynghyd â 120 o seddi. Yn ogystal, mae 3 chymrawd addysg feddygol yn eu lle i ddarparu addysgu erchwyn gwely ac ystafell ddsbarth.

## Yr Adran

**Gweler ein gwefan answyddogol: [www.mountainmedicine.co.uk](http://www.mountainmedicine.co.uk)**

Mae'r Adran Achosion Brys yn Fangor yn gweld cymysgedd o achosion brys eang a diddorol ym mhob arbenigedd, gydag ychydig iawn o 'fynychwyr amhriodol' o'i gymharu â llawer o Adrannau Achosion Brys trefol yn y DU. Mae'r niferoedd sy'n mynd i'r adran ar hyn o bryd dros 52,000 y flwyddyn ac mae'r nifer hwn yn parhau i gynyddu. Rydym yn gweld cyfran fawr o gleifion trawma mawr a mân drawma, ond fel lleoedd eraill yn y DU mae'r gyfran o gleifion hŷn sydd â phroblemau meddygol yn cynyddu.

Mae'r Adran Achosion Brys yn gwasanaethu poblogaeth breswyl o oddeutu 250,000 sy'n cynyddu'n fawr ar benwythnosau ac mewn cyfnodau gwyliau o ganlyniad i'r hanner miliwn o ddiwrnodau / blwyddyn y mae ymwelwyr yn ei dreulio yn ein dalgylch, gan arwain at amrywiad tymhorol uchel yn ystod yr wythnos / penwythnos mewn presenoldeb yn yr Adran Achosion Brys.

Rydym yn Uned Trawma Mawr o fewn Rhwydwaith Trawma Gorllewin Canolbarth Lloegr ac mae cleifion sy'n oedolion sydd angen gwasanaethau MTC yn cael eu trosglwyddo i'r Ganolfan Trawma Fawr yn Stoke-on-Trent. Mae gwasanaethau trydyddol paediatrig ac MTC yn cael eu darparu gan Ysbyty Alder Hey yn Lerpwl. Oherwydd ein daearyddiaeth, ychydig o gleifion trawma mawr sy'n ein osgoi ac yn mynd yn uniongyrchol i MTC, felly dyma un o'r ychydig o Adrannau Achosion Brys llai yn y DU sy'n dal i orfod trin trawma mawr yn rheolaidd.

Mae'r Adran Achosion Brys yn agos i'r A55 ac mae man pwrpasol i hofrennydd lanio. Mae'r Adran yn adnabyddus am drin y nifer fwyaf o anafiadau mynydd o unrhyw Adran Achosion Brys yn y DU. Rydym yn derbyn cleifion sydd wedi dod i'r ysbyty gan yr hofrennydd Chwilio ac Achub (sy'n cael ei weithredu gan Bristow Helicopters ar ran gwylwr y glannau EM), sy'n darparu gofal cyn ysbyty i unigolion sydd wedi'u hanafu ar Fynyddoedd Eryri a'r Rhanbarth arfordirol sydd gerllaw'r ysbyty cyffredinol dosbarth. Mae cludiant awyr hefyd yn cael ei ddarparu gan wasanaeth EMRTS (Gwasanaeth Adferiad a Throsglwyddo Brys), sy'n rhoi cyfle ar gyfer sesiynau mewn PHEM ar gyfer meddygon ymgynghorol meddygaeth frys gyda hyfforddiant a phrofiad priodol.

Mae'r adran yn darparu'r holl gyfleusterau sydd eu hangen ar adran frys modern. Mae gennym Uned Arsylwi gyda 5 gwely yn yr Adran Achosion Brys, ac mae yna ardal Mân Anafiadau pwrpasol sy'n cael ei chynnal hyd nes hanner nos lle mae'r rhan fwyaf o'n llwyth gwaith Mân Anafiadau yn cael ei drin gan ein tîm o ENPs.

Mae'r gwasanaeth Meddygon Teulu y tu allan i oriau wedi cael ei gyd-leoli gerllaw'r Adran Achosion Brys ers 2006. Mae perthnasoedd gwaith agos iawn gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau, gofal cychwynnol, gan symud cleifion o un ffrwd i'r llall yn y ddau gyfeiriad. Ein nod pennaf yw i glinigwyr weld cleifion yn ôl eu sgiliau yn hytrach nag (o reidwydd) deitlau eu swyddi.

## Staffio'r Adran Achosion Brys

Mae'r Adran Achosion Brys yn cael ei staffio ar hyn o bryd gan:

- 12 Meddyg Ymgynghorol (gan gynnwys y swydd hon)
- 2 Arbenigwr Cyswllt/Meddyg Arbenig (ar yr haen uwch)
- Yn nodweddiadol 7 Cymrawd Clinigol (meddygon ACCS / ST4 sy'n cyfateb i 80% o Feddygaeth Frys ac 20% naill ai PHEM neu Addysg Feddygol)
- 4 ST4-6 (Deoniaeth Cymru)
- 3 ST3 (Deoniaeth Cymru)
- 8 meddyg haen SHO (1 x FY1, m 4 x FY2, 2 x ACCS, 3 x GPST)
- 3 FY3 Addysg Feddygol
- 9 Meddyg FY3 (nifer ohonynt yn LTFT am ffordd i fyw)
- 1 Meddyg Academaidd FY2

Mae ein staff yn cynnwys tîm cadarn o Nyrs Ymarferydd Brys sy'n darparu asgwrn cefn ein Gwasanaeth Mân Anafiadau, ac mae gennym hefyd dair/tri Nyrs Ymarferydd Brys dan hyfforddiant.

Drwy gyflwyno'r swyddi hyn, bydd meddyg ymgynghorol ar y llawr hyd nes 10pm ddydd Llun i ddydd Gwener ac am o leiaf 8 awr pob diwrnod ar y penwythnos. Bydd gradd SAS dros nos ar gyfer sifft llawn.

Mae hon yn swydd newydd ac yn gychyn ar nod i ehangu ein staffio i ddarparu presenoldeb ymgynghorwyr ar lawr y siop 08.00 tan 24.00 saith diwrnod yr wythnos.

Rydym yn cymryd rhan weithredol mewn TARN ac mae gennym ddiwrnodau hyfforddiant tîm trawma ysbyty yn rheolaidd. Mae cysylltiadau rhagorol â chydweithwyr radioleg wedi hwyluso moderneiddio arfer delweddu trawma yn sylweddol.

Mae'r Adran Achosion Brys wrthi'n datblygu ei arfer uwchsain: mae gan bob meddyg gradd SAS a meddygon uwch naill ai achrediad Lefel 1 Uwchsain Adran Achosion Brys, neu'n gweithio tuag ato.

Ystyrir bod hyfforddiant mewn swydd yn bwysig gyda sesiwn addysgu ganol bore 5 munud bob dydd ar gyfer yr holl staff iau ar ddyletswydd. Cynhelir sesiynau gradd ganol o haen uwch, sesiynau addysgu a chyfarfodydd archwilio/M&M yn yr Adran Achosion Brys. Anogir cymryd rhan mewn prosiectau ymchwil ac mae cefnogaeth ystadegol ar gael trwy Brifysgol Bangor. Cefnogir staff i fynychu cyrsiau sy'n berthnasol i'w harfer a'u haddysgu barhaus.

Yn 2023, roedd yr Adran Achosion Brys yn safle un yn y DU am foddhad hyfforddeion yn Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol y GMC.

Mae gan Brifysgol Bangor ran allweddol i'w chwarae yn natblygiad addysg ac ymchwil feddygol yng Ngogledd Cymru. Yn y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer o benodiadau academaidd clinigol newydd wedi'u gwneud ar y cyd rhwng y Bwrdd Iechyd a

Phrifysgol Bangor. Gwneir mwy o benodiadau ar y cyd a bydd meddygon ymgynghorol sy'n ymuno â'r Bwrdd Iechyd sydd â ddi-ddordebau academaidd yn dod ar draws amgylchedd cefnogol fel y gallant ddilyn eu hymchwil a'u gweithgareddau dysgu.

Mae'r Adran Achosion Brys yn brysur yn hyfforddi israddedigion meddygol a nyrsio. Mae nifer o Brosiectau Clinigol Arbennig, poblogaidd a llwyddiannus i fyfyrwyr meddygol sydd ar eu blwyddyn olaf yn cael eu cynnal o Ysgol Glinigol Gogledd Cymru, y mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi arwain at gyhoeddi poster o leiaf mewn cynadleddau cenedlaethol, ac mae ein rhaglen myfyrwyr dethol yn llawn misoedd ymlaen llaw. Rydym hefyd yn cynnal lleoliadau Clinigol ar gyfer myfyrwyr GIG a pharfeddyg, yn ystod eu hyfforddiant sylfaenol ac ar gyfer unrhyw Uwch Ymarferwyr dan Hyfforddiant sy'n cwblhau eu cwrs MSc.

## **Y Swydd**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn dymuno penodi Meddyg Ymgynghorol Locwm mewn Meddygaeth Frys am 12 mis (i gyflenwi dros gyfnod mamolaeth) sy'n gallu cyfrannu'n uniongyrchol at ddarparu gofal brys yn ogystal â goruchwyllo meddygon iau a meddygon gradd SAS a nyrs ymarferydd. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddatblygu model gwasanaeth dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol a fydd yn ychwanegu ansawdd a diogelwch i'r gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru. Y tair Adran Achosion Brys BIPBC yng Ngogledd Cymru yw Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ger y Rhyl ac Ysbyty Maelor yn Wrecsam.

Bydd angen i'r Meddyg Ymgynghorol Locwm fod â sgiliau/hyfforddiant cynhwysfawr i ymarfer meddygaeth frys cyfredol y DU. Bydd disgwyl iddynt weithio ar lawr gwlad, gan gynnwys oriau anghymdeithasol / penwythnosau, yn amodol ar gynllun swydd clir a chynaliadwy. Nid yw rôl y Meddyg Ymgynghorol yn oruchwyliol nac yn reolaethol yn unig a byddai'r Bwrdd yn disgwyl iddynt gael eu llwyth gwaith llym ei hunain yn ogystal â goruchwyllo meddygon iau er mwyn darparu gofal mwy diogel i gleifion.

Mae Cytundeb Meddygon Ymgynghorol Cymru yn seiliedig ar raniad 7 SCC / 3 SPA, ac felly'n darparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer datblygu rolau cysylltiedig - megis addysgu ac ymchwil - na rhai rhannau eraill o'r DU.

Mae'r amser a dreulir yn glinigol yn darparu gofal a'r amser a dreulir ar SPA wedi'i ddynodi'n glir yn y cynllun swydd a'r rota.

Byddai'r arfer clinigol a ragwelir yn cydymffurfio â chwricwlwm Meddygaeth Frys cyfredol Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (RCEM) y DU. Yn yr un modd, byddai gwaith proffesiynol y meddyg ymgynghorol newydd yn cydymffurfio â'r safonau a fynegwyd gan y RCEM ynghylch llwyth gwaith personol a dilyniant tuag at wasanaeth a ddarperir gan feddyg ymgynghorol.

## **Dyletswyddau a Chyfrifoldebau**

- Yr Arweinydd Clinigol yr Adran Achosion Brys.

- Byddai disgwyl i chi gyfrannu at weithgareddau clinigol ac addysgol yn y gyfarwyddiaeth fel y pennir gan y Meddyg Ymgynghorol ar eich tîm a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r boblogaeth leol gan gynnwys ymrwymiad brys ar alwad.
- Y Rota ar-alwad disgwyliedig cyfredol yw 1:8. Byddwch yn 1 o 8 ar-alwad. Bydd angen i chi gyflenwi ar gyfer gwyliau eich cydweithwyr.
- Cynorthwyo gyda meddygon ymgynghorol penodedig gyda goruchwyllo hyfforddai iau a'u haddysgu.
- Cyfrannu at weithgareddau llywodraethu clinigol lleol, gan gynnwys archwiliad clinigol a mentrau risg clinigol.
- Bydd gofyn i chi gydweithredu â rheolwyr lleol i gynnal gwasanaethau'n effeithiol a bydd disgwyl i chi rannu gyda chydweithwyr y cyfraniad meddygol at reoli.
- Yn amodol ar Amodau a Thelerau'r Gwasanaeth, bydd disgwyl i chi gadw at bolisiau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd, sy'n cael eu llunio wrth ymgynghori â'r proffesiwn lle maent yn cynnwys materion clinigol.
- Bydd disgwyl i chi ddilyn polisiau a gweithdrefnau cyflogaeth a phersonél lleol a chenedlaethol o ran rheoli gweithwyr y Bwrdd Iechyd.

### **Trefniadau Gwaith (Trefniadau Sesiwn, SPA a CPD)**

- Mae amserlen wythnosol arfaethedig yn seiliedig ar gytundeb 10 sesiwn.
- Mae gweithgareddau addysgol ac addysgu adrannol wythnosol rheolaidd, ynghyd â chyfleoedd i fynychu cyrsiau priodol a fyddai'n cyflawni eich gofynion CPD.

### **Prif Amodau Gwasanaeth**

- Mae'r swydd hon yn dod o dan Amodau a Thelerau Gwasanaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ar gyfer Staff Meddygol a Deintyddol Ysbytai (Cymru) ac Amodau Gwasanaeth Cyngor Cyffredinol Whitley a Diwygiad Cytundeb Meddygon Ymgynghorol Cenedlaethol yng Nghymru. Gellir cael manylion y rhain gan yr Adran Personel Meddygol / Deintyddol.
- Mae'r swydd yn bensiynadwy oni bai bod y sawl sy'n cael ei benodi'n optio allan o'r cynllun neu'n anghymwys i ymuno â'r cynllun. Bydd tâl yn ddarostyngedig i dynnu cyfraniadau pensiwn yn unol â rheoliadau'r Adran Iechyd.
- Bydd deilydd y swydd yn atebol yn rheolaethol i'r Cyfarwyddwr Clinigol ac yn atebol yn broffesiynol i'r Cyfarwyddwr Meddygol.

- Bydd angen i'r meddyg sy'n cael ei benodi fyw mewn lleoliad sydd o fewn amser teithio rhesymol o'r man gwaith fel y cytunwyd gyda'r Cyfarwyddwr Clinigol.
- Mae angen i ddeilydd y swydd deithio rhwng ysbytai / clinigau fel bo angen. Disgwylir ymagwedd wedi'i gynllunio a chost effeithiol.
- Mae angen i ddeilydd y swydd gydymffurfio â'r Polisiau Iechyd a Diogelwch priodol all fod mewn grym.
- Bydd ad-daliad diswyddiad a threuliau cysylltiedig yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd.
- Mae'r graddfa cyflog ar gyfer y swydd yn seiliedig ar Amodau a Thelerau Gwasanaeth Staff Deintyddol a Meddygol Iechyd Cyhoeddus a Meddygon Cymuned ar gyfer cytundeb sylfaenol 10 sesiwn: bydd yr union raddfa'n cael ei bennu ar ôl gwirio gwasanaeth GIG blaenorol perthnasol. Mae'r cytundeb cyflogaeth gyda BIPBC.
- Mae'r swydd hon ar gyfer 8 sesiwn.

### Cynllun Swydd Arfaethedig

Bydd sesiynau'n cael eu trafod yn lleol yn unol â Chytundeb Meddygon Ymgynghorol Cymru (sy'n wahanol i Gytundeb Lloegr). Y pwynt cychwynnol ar gyfer y broses cynllunio swydd yng Nghymru yw cytundeb 10-PA gyda rhaniad o 7 DCC a 3 SPA.

|                     | <b>AM<br/>09.00 - 13.00</b>                         | <b>PM<br/>13.00 - 17.00</b> | <b>Gyda'r nôs<br/>17.00 - 22.00</b>                     |
|---------------------|---|-----------------------------|---|
| <b>Dydd Llun</b>    | Rownd ward Uned<br>Arsylwi neu<br>gweinyddiaeth DCC | Goruchwyliwr llawr          |   |
| <b>Dydd Mawrth</b>  | SPA   | Asesiad Cyflym              |   |
| <b>Dydd Mercher</b> | SPA   | Goruchwyliwr llawr          |   |
| <b>Dydd Iau</b>     | I FFWRDD  | I FFWRDD                    |   |
| <b>Dydd Gwener</b>  |   | SPA                         | Goruchwyliwr<br>llawr 17:00 –<br>22:30 yna ar-<br>alwad |
| <b>Dydd Sadwrn</b>  | 12:00 – 20:00 (1 mewn 8)                            |                             |   |
| <b>Dydd Sul</b>     | 12:00 – 20:00 (1 mewn 8)                            |                             |   |



Mae sampl o amserlen wythnosol fel yr uchod. Mae'r amlder ar-alwad cyfredol yn 1 mewn 7. Gyda phenodiad y swyddi a hysbysebiri, rhagwelir y bydd y rhai sy'n cael eu penodi'n gweithio rota ar alwad gydag amlder rhwng 1:8 ac 1:10 (gyda cyflenwi arfaethedig).

Mae'r patrwm gwaith yn amrywiol ond bydd yn cynnwys:

- 7 DCC ar gyfer gwaith clinigol gan gynnwys 1 PA ar gyfer ar-alwad anrhagweladwy
- 3 SPA gan gynnwys 1 SPA ar gyfer CPD a gwerthuso / aiddilysu a SPA eraill ar gyfer e.e archwilio, addysgu, goruchwyliaeth clinigol ac addysgol staff meddygol iau ac ymchwil

Mae croeso i ymgeiswyr sy'n dymuno gweithio LTFT, neu sy'n dymuno cyfuno gwaith LTFT yn yr Adran Achosion Brys gyda rolau eraill. Mae posibilrwydd cynnwys diddordebau arbennig gyda chynllun swydd pwrpasol.

Mae'r cynllun swydd terfynol yn amodol ar gytundeb rhwng y cyfarwyddwr clinigol, y Bwrdd Iechyd a'r sawl sy'n cael ei benodi.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi cefnogaeth rhagorol ar gyfer CPD, absenoldeb astudio ac absenoldeb proffesiynol (e.e ar gyfer addysgu ar gyrsiau cynnal bywyd ) Mae gan y Bwrdd Iechyd adran hyfforddiant adfywio rhagweithiol ac mae'n darparu cyrsiau ILS, ALS, ALRT, EPLS a ATLS ar y safle gyda chefnogaeth sylweddol gan dîm amlddisgyblaethol Meddygaeth Frys.

## **Dyddiad Dechrau**

Bydd y dyddiad dechrau yn cael ei bennu drwy gytundeb ar y cyd rhwng yr ymgeisydd llwyddiannus a'r Bwrdd Iechyd.

## **Manylion ar Gyfer Ymweld**

Gwahoddir ymgwiswyr sy'n dymuno gweld yr Adran(au) sy'n rhan o'r swydd i gysylltu â'r Clinigwr Arweiniol: Anogir ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer i gysylltu â:

Dr Nikki Sommers ar [nikki.sommers2@wales.nhs.uk](mailto:nikki.sommers2@wales.nhs.uk) neu ffonio'r ysgrifenyddes ar 03000 851065

Mae mwy o wybodaeth am yr Adran Achosion Brys (a bywyd yng Ngogledd Cymru) hefyd ar gael ar ein gwefan answyddogol [www.mountainmedicine.co.uk](http://www.mountainmedicine.co.uk) neu cysylltwch â ni drwy Twitter @YGEDBangor

## GOFYNION CYFFREDINOL

Mae'r swydd hon yn amodol ar Amodau a Thelerau cyflogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**Gwerthoedd:** Rhaid i holl weithwyr y Bwrdd Iechyd ddangos a chynnwys y datganiadau Gwerthoedd ac Ymddygiad fel eu bod yn dod yn rhan annatod o fywyd gwaith deilydd y swydd, a chynnwys egwyddorion yn niwylliant y sefydliad.

**Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Cofrestredig:** Gofynnir i holl weithwyr BIPBC y mae gofyn iddynt gofrestru â chorff proffesiynol, er mwyn iddynt allu gweithio o fewn eu proffesiwn, gydymffurfio â'u cod ymddygiad a gofynion eu cofrestriad proffesiynol.

**Gallu:** Rydych yn gyfrifol am gyfyngu eich gweithredoedd i'r rheiny rydych yn teimlo eich bod yn gallu ymgymryd â nhw. Ni ddylai deilydd y swydd ar unrhyw adeg weithio y tu hwnt i'w lefel diffiniedig cymhwyster. Os oes gan ddeilydd y swydd bryderon ynghylch hyn, fe ddylai eu trafod ar unwaith â'i Reolwr/Goruchwyliwr. Mae gan weithwyr gyfrifoldeb i roi gwybod i'w Reolwr/Goruchwyliwr os oes ganddynt amheuaeth ynglŷn â'u gallu i wneud eu dyletswyddau.

**Dysgu a Datblygiad:** Rhaid i bob aelod o staff ymgymryd â rhaglenni cynefino ar lefel gorfforedig ac adrannol a rhaid sicrhau bod unrhyw ofynion hyfforddiant statudol/gorfodol yn gyfredol. Os yw'n briodol, gofynnir i staff ddangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

**Gwerthuso Perfformiad:** Rydym wedi ymrwmo i ddatblygu ein staff ac rydych yn gyfrifol am gymryd rhan ym mhroses Adolygu Datblygiad Perfformiad Blynyddol y swydd.

**Iechyd a Diogelwch:** Mae gan holl weithwyr y sefydliad ddyletswydd o ofal statudol am eu diogelwch personol eu hunain a diogelwch eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd neu esgeulustra. Rhaid i ddeilydd y swydd gydweithredu â rheolwyr fel bod y sefydliad yn gallu bodloni ei ddyletswyddau cyfreithiol ei hun a rhoi gwybod am unrhyw sefyllfa peryglus neu offer diffygiol. Rhaid i ddeilydd swydd gadw at bolisïau rheoli risg, iechyd a diogelwch a pholisïau cysylltiol y sefydliad.

**Rheoli Risg:** Un o elfennau safonol y rôl a chyfrifoldeb holl staff y sefydliad yw eu bod yn cyflawni rôl ragweithiol o ran rheoli risg yn eu holl waith. Mae hyn yn cynnwys asesu risg pob sefyllfa, cymryd camau priodol ac adrodd am bob digwyddiad, achosion y bu ond dim iddynt ddigwydd a pheryglon.

**Y Gymraeg:** Rhaid i'r holl weithwyr berfformio eu dyletswyddau gan gadw'n gaeth at ofynion Cynllun Iaith y sefydliad a chymryd bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg wrth ymdrin â'r cyhoedd.

**Llywodraethu Gwybodaeth:** Mae gofyn i ddeilydd y swydd fod yn ymwybodol bob amser o bwysigrwydd cadw gwybodaeth a gafwyd yn ystod ei ddyletswyddau yn gyfrinachol ac yn ddiogel. Mewn llawer o achosion bydd hyn yn cynnwys mynediad at wybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig â defnyddwyr y gwasanaeth.

**Deddf Diogelu Data 1998:** Rhaid i ddeilydd y swydd drin pob gwybodaeth, boed honno'n gorfforaethol, neu'n wybodaeth am staff neu gleifion, mewn modd synhwyrol a chyfrinachol yn unol â darpariaethau deddf diogelu data 1998 a pholisi'r sefydliad. Ystyrir unrhyw achos o dorri cyfrinachedd yn drosedd disgyblu difrifol, sy'n agored i ddiswyddo a/neu erlyniad dan ddeddfwriaeth statudol bresennol (Deddf Gwarchod Data) a Pholisi Disgyblu'r Bwrdd Iechyd.

**Rheoli Cofnodion:** Fel un o weithwyr y sefydliad hwn, mae gan ddeilydd y swydd gyfrifoldeb cyfreithiol am yr holl gofnodion y bydd yn eu casglu, eu creu neu eu defnyddio fel rhan o'i waith yn y Bwrdd Iechyd (gan gynnwys iechyd cleifion, iechyd staff neu anaf, materion ariannol, personol a gweinyddol), waeth a yw'r rhain ar bapur neu ar gyfrifiadur. Ystyrir pob cofnod o'r fath yn gofnod cyhoeddus, ac mae gan ddeilydd y swydd ddyletswydd cyfrinachedd gyfreithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth (hyd yn oed ar ôl i weithiwr adael y sefydliad). Dylai ddeilydd y swydd ymgynghori â'i reolwr os oes ganddo/i unrhyw amheuaeth am reolaeth gywir unrhyw gofnodion y mae'n gweithio gyda nhw.

**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol:** Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru yn gosod dyletswydd bositif ar y Bwrdd Iechyd i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl a nodweddion gwarchoddedig, fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau cyhoeddus. Mae naw rhinwedd a warchodir: oed; anabledd; ailbennu rhywedd, priodas a partneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth; hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau na fydd unrhyw ymgeisydd am swydd neu weithiwr yn cael ei drin yn llai ffafriol o ran yr uchod. I'r perwyl hwn, mae gan y Bwrdd Iechyd Bolisi Cydraddoldeb a rhaid i bob gweithiwr gyfrannu at ei lwyddiant.

**Urddas yn y Gwaith:** Mae'r sefydliad yn condemnio pob math o fwlio ac aflonyddu ac yn ymdrechu'n rhagweithiol i hyrwyddo gweithle lle mae gweithwyr yn cael eu trin yn deg a gydag urddas a pharch. Gofynnir i'r holl staff adrodd ar unrhyw fath o fwlio ac aflonyddu i'w Rheolwr Llinell neu unrhyw Gyfarwyddwr y sefydliad. Ni fydd unrhyw ymddygiad amhriodol yn cael ei oddef a bydd yn cael ei drin fel mater difrifol dan Bolisi Disgyblu y Bwrdd Iechyd.

**Gwiriad Datgelu DBS:** Mae'n bolisi gan y Bwrdd Iechyd, yn unol â'r ddeddfwriaeth briodol, bod Gwiriadau Datgelu cyn cyflogi yn cael eu cynnal ar bob Meddyg a Deintydd sydd newydd eu penodi. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi'i awdurdodi i ddatgelu manylion am unrhyw gofnod troseddol i'r Bwrdd Iechyd gan gynnwys euogfarn, rhybuddion, ceryddon a rhybuddion terfynol.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n cael eu hystyried ar gyfer y swydd hon roi'r gwybodaeth hon ar y ffurflen gais cyn y gallant gael eu hystyried.

Bydd unrhyw wybodaeth sy'n cael ei ddatgelu yn cael ei drin yn gyfrinachol a bydd yr holl amgylchiadau'n cael eu hystyried cyn y bydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus gwblhau ffurflen gais Gwiriad Swyddfa Cofnodion Troseddol a darparu'r ddogfennau priodol. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol fe all gwrthod cydymffurfio â'r drefn hon atal ystyriaeth pellach ar gyfer y swydd hon.

**Diogelu plant ac oedolion bregus:** Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i ddiogelu plant ac oedolion bregus. Felly, mae'n rhaid i'r holl staff fynychu hyfforddiant Diogelu Plant a bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan y Polisi Diogelu Oedolion.

**Rheoli Haint:** Mae'r sefydliad wedi ymrwymo i fodloni ei oblygiadau i leihau heintiau. Mae'r holl staff yn gyfrifol am amddiffyn a diogelu cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr a gweithwyr rhag y risg o gael haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae'r cyfrifoldeb yn cynnwys bod yn ymwybodol o gynnwys Polisiâu a Gweithdrefnau Atal a Rheoli Haint y Bwrdd Iechyd a chadw atynt yn gyson.

**Dim Ysmygu:** Er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'r holl gleifion, ymwelwyr a staff i fod yn iach, mae pob safle'r Bwrdd Iechyd, gan gynnwys adeiladau a thiroedd, yn ddi-fwg.

**Datganiad Hyblygrwydd:** Amlinellir dyletswyddau'r swydd yn y Swydd Ddisgrifiad a'r Fanyleb Bersonol hon a gellir eu newid o dro i dro drwy gytundeb ar y cyd.